**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN**

# ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR
# CYNLLUN GWEITHREDU

Ionawr 2022

# Cynnwys


RHAGAIR ....3

1. Cyflwyniad....5

    1.1 Ynglŷn â newid yn yr hinsawdd ....5

    1.2 Ynglŷn â'r argyfwng natur....2

    1.3 Ein allyriadau - Cyngor Torfaen....4

    1.4 Allyriadau yn y fwrdeistref....5

    1.5 Cynnwys ein cymunedau ....2

    1.6 Ein nodau a'n hamcanion ....4

    1.7 Ein hymrwymiad i'r argyfwng hinsawdd a natur....5

2.0 CYNLLUN GWEITHREDU ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR ....6

    i. Effeithlonrwydd ynni a dŵr ....6

    ii. Ynni adnewyddadwy....7

    iii. Symudedd a thrafnidiaeth ....9

    iv. Caffaeliad ....10

    v. Gwastraff....11

    vi. Bioamrywiaeth a gwytnwch yr ecosystem ....12

    vii. Gwytnwch....15

    vii. Trawsbynciol ....17

3.0 MESUR EIN CYNNYDD....18

4.0 NODAU LLES CENEDLAETHOL A DULLIAU O WEITHIO....18

5.0 GEIRFA....21

6.0 CYFEIRIADAU....21

# RHAGAIR

Ym mis Mehefin 2019, cytunodd y Cyngor ar benderfyniad i ddatgan argyfwng hinsawdd, gan gydnabod y bygythiad go iawn y mae newid yn yr hinsawdd yn ei gynrychioli i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi datgan argyfwng natur i gydnabod bygythiad difrifol y dirywiad mewn bioamrywiaeth. Lle mae bioamrywiaeth mewn perygl, felly hefyd y gwasanaethau pwysig y mae'n eu darparu. Y gwasanaethau hyn sydd, yn y pen draw, yn cefnogi bywyd ar y ddaear. Er bod newid yn yr hinsawdd yn fygythiad mawr i natur, mae llawer o'r arferion anghynaliadwy sy'n achosi i'r hinsawdd newid hefyd yn effeithio bioamrywiaeth.

Eisoes, rydym wedi dechrau lleihau ein allyriadau a newid sut rydym yn rheoli ein hadnoddau naturiol, ond rydym yn gwybod bod angen i ni gyflymu sut rydym yn gweithredu a gwneud llawer mwy. Bydd ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur yn gofyn am ffyrdd newydd o weithio a dulliau gwahanol. Bydd yn gofyn i aelodau a swyddogion y cyngor weithio'n effeithiol gyda'i gilydd, gan greu uchelgais eofn a rhannu capasiti ac arbenigrwydd. Bydd rhai o'r newidiadau sydd angen i ni eu gwneud yn heriol, ond rydym yn sylweddol eu bod yn bwysig i sicrhau gwytnwch hirdymor ein gwasanaethau a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Ni fyddwn yn gallu gwneud popeth ar unwaith – byddwn yn ceisio yn gyntaf delio gyda'r meysydd hynny lle gallwn gael yr effaith fwyaf. I wneud hyn, byddwn yn mabwysiadu dull a arweinir gan y data, yn seiliedig ar ddeall ein ôl troed carbon. Bydd angen i ni fod yn arloesol ac yn uchelgeisiol a bydd hefyd angen i ni drawsnewid sut rydym yn gwneud pethau yn y dyfodol. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn nodi ein dull o ddod yn garbon niwtral erbyn 2030 a sut byddwn yn amddiffyn a gwella adnoddau naturiol gwerthfawr Torfaen a'r bioamrywiaeth y maent yn eu cefnogi.

Rydym yn gwybod bod newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng natur yn fater o bryder i'n cymunedau hefyd ac rydym wedi gofyn iddyn nhw sut allwn weithio gyda'n gilydd ar y newidiadau cyfunol hyn. Daw ffynonellau allweddol allyriadau yn y fwrdeistref o'n cartrefi, trafnidiaeth a busnesau – felly mae gan bawb ran i'w chwarae. Gall y sawl sydd â lle y tu allan – gardd neu randir – ei reoli mewn modd sy'n fwy cyfeillgar i fioamrywiaeth, ac mae cyfleoedd eraill hefyd i bobl sy'n byw a gweithio yn Nhorfaen i gefnogi natur hefyd, gan gynnwys gwirfoddoli mewn gwarchodfa natur leol.

Mae effaith y pandemig coronafeirws eisoes wedi gweld llawer ohonom yn teithio llai, gan leihau ein defnydd o gerbydau sy'n cyfrannu tuag at allyriadau carbon, ac yn cerdded a beicio mwy. Mae sut mae rhai ohonom yn gweithio hefyd wedi newid, gyda mwy o wasanaethau yn symud arlein a gweithio o'r cartref yn cynyddu. Mae llawer ohonom wedi bod yn siopa'n lleol a meddwl am o ble mae'r nwyddau a'r gwasanaethau rydym yn dibynnu arnyn nhw bob dydd

yn dod. Mae hefyd wedi gwneud i ni werthfawrogi mannau gwyrdd ac ail-werthuso pwysigrwydd yr amgylchedd lleol ar stepen ein drws.

Mae natur dan fygythiad ac mae ein hinsawdd yn newid, felly mae angen i ninnau newid hefyd. Dyma'r heriau diffiniol i'r Cyngor, ac rydym yn gwybod mai gweithredu yn gynnar yw'r dull gorau gan ei bod wastad yn anoddach ymateb i sefyllfa ac yn aml mae'n fwy costus. Bydd y camau a gymerwn nawr i ddelio gyda newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng natur yn llunio'r etifeddiaeth rydym yn ei gadael i genedlaethau'r dyfodol sy'n byw yn Nhorfaen.

# 1. Cyflwyniad

## *1.1 Ynglŷn â newid yn yr hinsawdd*

Newid yn yr hinsawdd yw un o'r heriau mwyaf y mae'r byd yn ei wynebu ac mae'n cyfeirio at newid graddfa fawr, hirdymor ym mhatrymau tywydd y blaned neu dymheredd ar gyfartaledd[1].

Pan gaiff tanwydd ffosil ei losgi, mae deuocsid carbon ($CO_2$) yn cael ei ryddhau, ac mae hyn, ynghyd ag allyriadau dynol eraill, yn cael ei alw'n nwy tŷ gwydr. Mae nwyon tŷ gwydr yn dal gwres yn atmosffer y ddaear ac yn achosi i'n hinsawdd newid. Mae consensws gwyddonol mai gweithgareddau dynol ers y cyfnod diwydiannol fu prif achos y newid yn yr hinsawdd.

Bydd ein hinsawdd newidiol yn cael effaith ar y blaned ac ar ein bywydau bob sydd. Bydd yn effeithio llawer o'r gwasanaethau rydym yn dibynnu arnyn nhw, ein hasedau a'n seilwaith. Bydd angen i ni gynnwys hyn yn y modd rydym yn cynllunio ar gyfer y tymor hirach. Mae Torfaen, fel llawer o ardaloedd eraill yng Nghymru, yn debygol o wynebu hafau poethach, sychach, gaeafau cynhesach, gwlypach a mwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol gan gynnwys llifogydd.

Mae adroddiad yn ddiweddar gan y Panel Rhyngwladol ar Newid yn yr Hinsawdd yn nodi pwysigrwydd cadw cynnydd yn y tymheredd byd-eang islaw 1.5°C er mwyn i ni allu osgoi rhai o'r risgiau mwy eithafol yn y dyfodol mewn cysylltiad â newid yn yr hinsawdd[2]. Mae hefyd yn amlygu'r ffaith bod amser yn rhedeg allan i ni wneud rhywbeth.

Arweiniodd 21ain Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (COP21) at Gytundeb Paris – a arwyddwyd gan 195 o lywodraethau cenedlaethol gan gynnwys llywodraeth y DU. Mae hyn yn pennu'r cyd-destun ar gyfer delio gydag achosion a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd ac amcan hirdymor datgarboneiddio'r economi byd-eang.

I gyflawni'r targed hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n pennu'r targed hirdymor o leihau allyriadau o leiaf 80% erbyn 2050, ynghyd â chyllidebau carbon 5 mlynedd. Yn 2019, derbyniodd Llywodraeth Cymru gyngor y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd y dylid adolygu'r targed 80% i fyny i 95% a hefyd pennu uchelgais i gyrraedd allyriadau sero net erbyn 2050. Felly, gall partneriaid Llywodraeth Cymru, gan gynnwys llywodraeth leol, ddechrau gweld pwyslais cynyddol ar weithredu, ac nad yw gwneud dim yn opsiwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer cyflawni'r targedau hyn yn Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel 2019 [3]. Mae hyn yn cynnwys eu huchelgais i gael gwasanaethau cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Mae carbon niwtral yn golygu cael cydbwysedd rhwng faint o allyriadau a gynhyrchir a faint sy'n cael ei storio neu ei wrthbwyso.

Os nad ydym yn gweithredu nawr, bydd canlyniadau i bob un ohonom ac mae Cyngor Torfaen wedi ymuno gyda Llywodraeth Cymru a llawer o awdurdodau lleol ledled Cymru a'r DU i ymateb gyda brys a phwrpas drwy ddatgan argyfwng hinsawdd a dangos atebolrwydd i'r genhedlaeth nesaf.

Bydd ymateb i'r argyfwng hinsawdd yn gofyn i gyrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd. Rydym eisoes yn gweithio ag eraill drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen sydd â nod llesiant i *ddatblygu ymatebion lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd*. Rydym hefyd yn gweithio'n rhanbarthol drwy Gwent yn Barod am yr Hinsawdd a Bargen Prifddinas-ranbarth Caerdydd i gefnogi cyfleoedd i gyflymu datgarboneiddio.

## *1.2 Ynglŷn â'r argyfwng natur*

Mae newid yn yr hinsawdd yn fygythiad mawr i natur ac mae llawer o'r arferion anghynaliadwy sy'n achosi i'r hinsawdd newid hefyd yn cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth.

Mae bioamrywiaeth yn golygu **amrywiaeth organebau byw**, o ffwng, mwsogl a thrychfilod, i blanhigion, adar a mamaliaid. Yr amrywiaeth hwn o fywyd sy'n rhyngweithio, a elwir yn **ecosystem,** sy'n cefnogi iechyd a gwytnwch **adnoddau naturiol** – ein gwlyptiroedd, pridd, coedlannau, glaswelltiroedd a gweundir. Lle mae bioamrywiaeth yn cael ei fygwth, yna hefyd y gwasanaethau pwysig y mae'r adnoddau naturiol yn eu darparu. Gelwir y rhain yn **wasanaethau ecosystem** ac maent yn hanfodol ar gyfer cefnogi'r holl fywyd ar y ddaear.


Yn ychwanegol at ddarparu'r hanfodion y mae dynolryw eu hangen, sy'n cynnwys bwyd, pren a thanwydd, mae ein hadnoddau naturiol hefyd yn darparu gwasanaethau llai gweladwy, gan gynnwys y rhai sy'n cefnogi ein capasiti i addasu i newid yn yr hinsawdd a lliniaru ei effaith.

Mae coed a llystyfiant arall yn helpu i reoleiddio faint o ddeuocsid carbon sydd yn yr atmosffer drwy gadw dan glo swm mawr o garbon wrth iddynt dyfu. Mae pridd hefyd yn bwysig iawn o ran storio carbon. Gall ein hadnoddau naturiol hefyd gefnogi ein gallu i addasu i newid yn yr hinsawdd drwy reoli dŵr yn y dirwedd a lleihau effaith cynnydd mewn tymheredd.

Mae llawer o swyddi a chyfleoedd hyfforddi hefyd yn gysylltiedig ag adnoddau naturiol, gan gynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth, twristiaeth. Mae mwynhau natur drwy adloniant yn yr awyr agored hefyd yn cefnogi iechyd corfforol a meddyliol – rhywbeth y cafodd pobl eu hatgoffa ohono yn ystod cyfyngiadau cyfnod clo Covid-19.

Mae pwysau megis newid yn yr hinsawdd, colli cynefinoedd, darnio cynefinoedd a rheolaeth wael oll yn fygythiadau i fioamrywiaeth ac yn cynrychioli risg i les hirdymor ein cymunedau ac fel elwir hyn yn **argyfwng natur**.

Mae Adroddiad Planed Byw 2020 (WWF) yn amcangyfrif bod dirywiad o 68% wedi bod ym mhoblogaethau mamaliaid, pysgod, adar, ymlusgiaid ac amffibiaid yn fyd-eang yn ystod y 50 mlynedd diwethaf [4]. Mae bioamrywiaeth yng Nghymru hefyd yn dirywio fel y nodir yn Adroddiad Cyflwr Natur 2019:




*Ffigwr 1:* Bioamrywiaeth yng Nghymru yn dirywio. Ffeithlun o adroddiad State of Nature 2019. Partneriaeth State of Nature[5].

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno deddfwriaeth a fframweithiau i helpu i sicrhau bod natur yn cael ei hamddiffyn, a bu iddyn nhw hefyd ddatgan argyfwng natur yn 2021.

Dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), mae gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru 'ddyletswydd bioamrywiaeth' sydd wedi ei nodi yn y ddeddfwriaeth. Mae hyn yn gofyn bod angen i ni 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled ag y mae'n gyson gydag ymarfer priodol eu swyddogaethau ac wrth wneud hynny hybu gwytnwch ecosystemau'. Rhaid i ni hefyd gyfrannu at chwe amcan Cynllun Gweithredu Adfer Natur cenedlaethol Llywodraeth Cymru 2020-21. Bob tair blynedd, rhaid i gyrff cyhoeddus adrodd ar yr hyn sydd wedi ei wneud i gydymffurfio gyda'r ddyletswydd.

Mae Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 yn bolisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer sut dylid datblygu tir ledled y genedl ac mae'n cynnwys lefel uchaf cynllun datblygu o gymharu â'r hwn y mae pob cynnig datblygu yn cael ei asesu. Mae hyn yn pennu canlyniad i gyflawni 'Cymru lle mae pobl yn byw gydag ecosystemau bioamrywiol, cadarn a chysylltiedig'.


At hyn, mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi sut y mae'n rhaid i bolisïau cynlluniau datblygu lleol ystyried yr angen i:

- Cefnogi cadwraeth bioamrywiaeth;
- Sicrhau bod safleoedd dynodedig yn cael eu gwarchod a'u rheoli;
- Diogelu rhywogaethau gwarchodedig, a
- Sicrhau gwelliannau i wytnwch ecosystemau.

Ynghyd â Llywodraeth Cymru a llawer o awdurdodau lleol eraill mae Cyngor Torfaen wedi datgan argyfwng natur i helpu i sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol, sy'n byw yn Nhorfaen yn gallu elwa o amgylchedd naturiol fioamrywiol sy'n cefnogi eu lles.

## *1.3 Ein hallyriadau - Cyngor Torfaen*

Rydym wedi gwneud peth gwaith i ddeall o ble mae allyriadau deuocsid carbon y Cyngor yn dod er mwyn gallu cynllunio'n well i'w lleihau. Cyfrifwyd y waelodlin gan ddefnyddio methodoleg adrodd carbon sero net sector cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Mae Ffigwr 2 isod yn rhoi trosolwg o'n hallyriadau yn 2019-20.




Ffigwr 2: Crynodeb o allyriadau Cyngor Torfaen yn ystod 2019/20

Allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'r nwyddau a'r gwasanaethau a brynir gan y Cyngor yw rhan fwyaf yr ôl troed carbon o bell ffordd. Mae'r allyriadau hyn yn cael eu cyfrif fel allyriadau anuniongyrchol ac maent yn cynnwys holl allyriadau o echdynnu, cynhyrchu a chludo nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddir yn y flwyddyn adrodd [6]. Serch hynny, mae'r rhan hon o'r swm ond yn amcan sy'n seiliedig ar allyriadau diwydiant ar gyfartaledd fesul £ a werir ar gyfer categorïau cynhyrchion yn hytrach na data ar gyfer cynhyrchion gwirioneddol neu ddata sy'n benodol i gyflenwr. Mae lefel uchel o ansicrwydd (+/-25%) wedi ei adnabod gyda'r dull hwn ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd yn ei gwneud yn heriol pennu targedau a mesur cynnydd o ran lleihau carbon [7].

Rydym hefyd wedi amcangyfrif faint o garbon a gaiff ei storio yn y tir yn ein meddiant, a ddangosir yn ffigwr 3.





Figure 3: Secwestriad carbon a amcangyfrifir, cysylltiedig â thir Cyngor Torfaen

## *1.4Allyriannau yn y fwrdeistref*





Figure 4: Allyriadau deuocsid carbon ar gyfer Torfaen, 2019

Cyhoeddir data bob blwyddyn ar allyriadau deuocsid carbon ar gyfer ardal pob awdurdod lleol. Mae oedi dwy flynedd ar gyfer y data hwn oherwydd cymhlethdod dod â'r wybodaeth hon at ei gilydd. Daw ffynonellau mwyaf allyriadau deuocsid carbon yn y fwrdeistref o'n defnydd o danwydd ffosil ac mae'n ymwneud â defnyddio ynni yn ein cartrefi, cludiant a ffynonellau masnachol a diwydiannol.

O ben i ben, gostyngodd allyriadau deuocsid carbon yn Nhorfaen rhwng 2005 a 2019 39.0% o 683.8 kilo-dunnell y flwyddyn i 417.0 kilo-dunnell y flwyddyn yn 2019 [8]. Hefyd, gostyngodd allyriadau fesul pen o 7.5 yn 2005 i 4.4 yn 2019; mae hyn yn arwyddocaol is na chyfartaledd Cymru, sef 11.2 a 7.6 tunnell yn eu tro [9].

Mae allyriadau deuocsid carbon yn gostwng o ganlyniad i'r gostyngiad mewn gorsafoedd pŵer glo sy'n bwydo i mewn i'r grid trydan yn y DU a chynnydd arwyddocaol mewn cynhyrchu trydan ffermydd solar a ffermydd gwynt oddi ar yr arfordir. Bu cynnydd hefyd mewn ynni adnewyddadwy lleol e.e. systemau ffotofoltäig yn darparu trydan yn ystod oriau dydd yn hytrach na defnyddio trydan o'r grid. Gallai ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar y gostyngiad hwn gynnwys mesurau arbed ynni sy'n cael eu mabwysiadu gan ddeiliaid tai a gwell ymwybyddiaeth o ynni a ddefnyddir. Gall y gostyngiad hefyd gael ei effeithio gan dlodi tanwydd lle na all pobl fforddio cynhesu eu cartrefi yn ddigonol.

Er bod allyriadau yn gostwng, mae angen cymryd camau pellach i ddelio gyda maint yr her. Gall y Cyngor ddylanwadu ar yr allyriadau hyn, ond bydd angen i randdeiliaid eraill weithredu i'w lleihau hefyd.

### *1.5 Cynnwys ein cymunedau*

Yn ystod mis Tachwedd 2020, gofynnwyd i drigolion, busnesau a'r trydydd sector sut gallent helpu i leihau allyriadau carbon ledled y fwrdeistref. Rydym eisiau i hon fod yn sgwrs barhaus gan y bydd angen i ni oll weithio gyda'n gilydd ar yr her gyfunol hon.

***Nid oes syniadau gwael, byddwch yn radical, byddwch yn heriol a thaflwch syniadau allan! Beth am gael ein syniadau allan yn yr agored a gweld lle mae'n arwain!***

Cawsom awgrymiadau yn ymwneud â choed, cynhyrchu mwy o ynni o ffynonellau adnewyddadwy, buddsoddiadau, deunydd pecynnu y gellir ei gompostio, cymhellion i fusnesau ymhlith pethau eraill, defnyddio mwy ar gludiant cyhoeddus, syniadau ar gyfer rhannu arferion da a syniadau yn ymwneud â sut mae'r Cyngor yn rheoli ei stad ei hun. Mae'r cwmwl geiriau isod yn ddelwedd o'r syniadau a gyflwynwyd a'r sgyrsiau a ddilynodd.




Figure 5: Cwmwl geiriau syniadau'r gymuned

Yn ystod mis Hydref a Thachwedd 2021, gofynnwyd i'n cymunedau beth roeddynt yn ei feddwl am y camau a nodwyd yn y cynllun drafft argyfwng hinsawdd a natur. Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr bod y camau a nodwyd yn y cynllun yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig.





*Figure 6: Adborth ymgynghoriad cymunedol ar bwysigrwydd y camau a gynlluniwyd*

Hefyd, gofynnwyd i'n trigolion am fwy o syniadau ynglŷn a phethau y gellid eu gwneud i gynorthwyo gyda'r argyfwng hinsawdd a chawsom lawer o awgrymiadau gan gynnwys gwastraff sero ac ailddefnyddio siopau, inswleiddio tai rhag drafftiau, mwy o randiroedd a mannau tyfu cymunedol, ardrethi busnes is i gynhyrchwyr lleol a gwersi ar y 'dyfodol' mewn ysgolion.

## *1.6 Ein nodau a'n hamcanion*

**Ein Nodau**

- Fel Cyngor, i ddod yn garbon sero net / carbon niwtral erbyn 2030.
- Arwain, cefnogi, hwyluso ac annog ein cymunedau, trigolion a busnesau fel bod Torfaen yn dod yn garbon niwtral erbyn 2050.

**Ein Hamcanion**

- Cael ein harwain gan y dystiolaeth a monitro ein gwaelodlin yn rheolaidd.
- Gweithio mewn dull sy'n hyrwyddo ein gwerthoedd*:*
    - ***Cefnogol*****:** drwy arwain, meithrin capasiti a dealltwriaeth, hyfforddiant, hyrwyddo fframweithiau a phecynnau i alluogi i'n gwasanaethau / cymunedau ddeall pwysigrwydd newid yn yr hinsawdd ac effaith eu penderfyniadau ar allyriadau.
    - ***Teg*****:** targedu'r meysydd a gaiff yr effaith fwyaf a sicrhau nad oes canlyniadau negyddol na fwriedir drwy ein camau gweithredu. Sicrhau bod camau yn ein cymunedau yn cael eu cymryd gydag asesiadau cadarn effaith ar gydraddoldeb.
    - ***Effeithiol:*** blaenoriaethu camau gweithredu, gweithio ar y cyd ac yn ddi-dor ar draws y cyngor i gyflenwi ein hamcanion. Sicrhau datblygiad achosion busnes cadarn a sicrhau rheolaeth prosiect gadarn ar gyfer gweithredu. Sicrhau bod cyfathrebu yn glir, ein bod yn gofyn am adborth a'n bod yn arolygu'r waelodlin a'r cynllun gweithredu i sicrhau ei fod yn aros yn berthnasol ac effeithiol.
    - ***Arloesol*****:** aros ar y blaen o'r meddylfryd, ymchwil a syniadau diweddaraf o ran sut gellir lleihau allyriadau carbon. Bod yn greadigol yn ein hatebion a'n camau gweithredu gan sicrhau ein bod yn dilyn y cyngor gorau un a diweddaraf, a lle nad oes atebion ar gael, gweithio gyda phartneriaid i ganfod atebion a chynigion newydd, wrth ddeall yn llawn risg a manteision camau o'r fath.

- Gweithio gyda'n gilydd ac yn gynhwysol gyda'n cymunedau. Adnabod ystod o grwpiau, unigolion a sefydliadau sy'n gallu herio ein strategaeth a'n cynllun gweithredu yn adeiladol a dod yn hyrwyddwyr yn ein cymuned.

- Gweithio gyda'n gilydd ac yn gynhwysol ar draws y Cyngor a chyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i adnabod a gweithredu'r camau sydd angen i ni eu cymryd i gyflenwi ein nodau.

## *1.7 Ein hymrwymiad i'r argyfwng hinsawdd a natur*

**Mae'r Cygnor yn ymrwymo i fod yn garbon niwtral erbyn 2030.**

Ar gyfer ein hasedau a'n gweithgareddau, fe wnawn hyn drwy:

**1.** Ddeall ein hallyriadau deuocsid carbon presennol er mwyn gallu cyfeirio ein hadnoddau yn well i'r meysydd hynny a gaiff yr effaith fwyaf. Y tri maes y byddwn yn canolbwyntio arnynt yw:

- o Ein hadeiladau
- o Ein gwariant – contractwyr a chyflenwyr
- o Ein defnydd o gludiant a'r fflyd.

**2.** Cynyddu uchelgais ein Cynllun Rheoli Carbon / Rhaglen Arbed Ynni ar gyfer adeiladau CBST a phennu targedau interim i gyflymu'r broses o leihau ein hallyriadau ein hunain.

**3.** Datblygu rhaglen adnewyddu fflyd carbon sero.

**4.** Datblygu, meithrin arbenigrwydd, capasiti a gallu i sicrhau bod yr effaith garbon wedi ei gwreiddio yn llawn yn ein penderfyniadau prynu a chaffael.

**5.** Datblygu a buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy ychwanegol ar ein stad ein hunain.

**6.** Hyfforddi ein staff a'r Aelodau Etholedig i ystyried a gweithredu ar yr argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnânt.

**7.** Ystyried yr hinsawdd yn ein prosesau cymryd penderfyniad.

**8.** Mabwysiadu targedau cynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol uchelgeisiol yn ein Cynllun Datblygu Lleol newydd.

**9.** Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth: -

- o Gyda Llywodraeth Cymru a Bargen Prifddinas-ranbarth Caerdydd a phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gefnogi pontio i gymdeithas carbon isel.

- o Rhoi cyfle i sefydliadau ac unigolion gyfrannu tuag at ein hamcanion hinsawdd a natur.

**Byddwn yn ymateb i'r argyfwng natur a dechrau paratoi ar gyfer effeithiau anochel hinsawdd sy'n newid drwy:**

**10.** Wella rheolaeth ein mannau gwyrdd i gefnogi bioamrywiaeth a gwytnwch ecolegol; meithrin gwytnwch newid yn yr hinsawdd a chydbwyso pwysau defnydd tir yn well.

**11.** Datblygu dealltwriaeth gyfunol o risgiau hinsawdd a gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ymatebion addasu lleol effeithiol.

## 2.0 CYNLLUN GWEITHREDU ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR

Mae’r cynllun gweithredu canlynol yn nodi sut rydym yn bwriadu ymateb i’r argyfyngau hinsawdd a natur. Byddwn yn sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i gyflawni’r cynllun gweithredu hwn ac arolygu cynnydd bob blwyddyn.

### *i. Effeithlonrwydd ynni a dŵr*

Rydym yn defnyddio ynni mewn llawer o wahanol ffyrdd – i gynhesu ein cartrefi a mannau gwaith, i goginio ein bwyd, goleuo ein hadeiladau a gyrru ein cerbydau.

Rydym yn defnyddio ynni i lanhau a chynhesu’r dŵr rydym yn ei ddefnyddio. Drwy ddefnyddio dŵr yn fwy effeithiol a defnyddio dŵr llwyd a dŵr glaw lle bo modd, gallwn leihau ein hôl troed carbon.

**Yr hyn y mae’r Cyngor wedi ei wneud eisoes**

Drwy gyfrwng mesurau arbed ynni a ymgymerwyd rhwng 2011 a 2019 mae’r Cyngor wedi arbed 3,868 tunnell o $CO_2$.

Ers 1af Ebrill 2012 mae’r holl gyfleustodau wedi eu prosesu yn fewnol gan system reoli cyfleustodau benodol.

Rydym yn defnyddio mesuryddion clyfar ar gyfer nwy a thrydan ar y rhan fwyaf o’n safleoedd; mae hyn yn ein galluogi i arolygu data ac adnabod cyfleoedd i leihau ynni.

Ers 2008 mae prosiectau i newid goleuadau stryd i rai ynni is wedi arwain at ostyngiad o 1,512 tunnell o $CO_2$, gan osgoi £450k ychwanegol mewn costau trydan blynyddol.

Yn y 3 blynedd ddiwethaf, mae prosiectau i osod goleuadau LED, synwyryddion golau ac adnewyddu boeleri mewn ysgolion wedi lleihau allyriadau gan 643 tunnell o $CO_2$.

I helpu i leihau defnydd o ddŵr, rydym wedi gosod mwy na 40 o unedau cofnodi i fonitro defnydd dŵr yn barhaol; mae hyn yn ein galluogi i adnabod lle mae dŵr yn gollwng / gwastraff dŵr. At hyn, rydym wedi gosod nifer fechan o systemau cynaeafu dŵr glaw.

| Ffocws | Beth fydd y Cyngor yn ei wneud | Pwy sy’n gyfrifol | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| Sut rydym yn gweithio | Deall ein hallyriadau er mwyn gallu cyfeirio adnoddau yn well i’r meysydd hynny a fydd yn cael yr effaith fwyaf. Byddwn yn defnyddio pecyn adrodd carbon newydd Llywodraeth Cymru i’n helpu gyda hyn. | Rheolwr Data, Ymchwil GIS / Tîm Ynni / Cynaliadwyedd | Parhaus |
| Sut rydym yn gweithio | Diweddaru ein Cynllun Rheoli Carbon / Rhaglen Arbed Ynni ar gyfer adeiladau CBST, gan gynnwys ysgolion, a phennu targedau | Tîm Ynni / Gwasanaethau Eiddo | Ebrill 2022 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | interim i gyflymu'r broses o leihau ein hallyriadau ein hunain. | | |
| Sut rydym yn gweithio | Gweithio gyda rheolwyr adeiladau i adnabod gwelliannau effeithlonrwydd dŵr yn adeiladau CBST, gan gynnwys ysgolion. | Tîm Ynni / Gwasanaethau Eiddo / Swyddog Ynni Ysgolion | Parhaus |
| Y Gymuned | Parhau i weithio gydag ysgolion ar weithgareddau ymwybyddiaeth ynni. | Swyddog Ynni Ysgolion | Parhaus |
| Y Gymuned | Parhau i hyrwyddo cynlluniau cartrefi cynnes. | Amddiffyn y Cyhoedd | Parhaus |

**Sut all ein cymunedau helpu**

**Drwy ddefnyddio llai o ynni –**

- ✓ Diffodd goleuadau pan fydd ystafelloedd yn wag
- ✓ Gwisgo siwmper pan fo'n oer

I gael rhagor o wybodaeth ar sut allwch arbed ynni yn eich cartref, ewch i wefan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. https://energysavingtrust.org.uk/about-us

**Drwy ddefnyddio llai o ddŵr –**

- ✓ Peidiwch â gadael tapiau i redeg
- ✓ Berwch dim ond faint o ddŵr rydych ei angen yn y tegell
- ✓ Cymerwch gawod fer yn hytrach na bath
- ✓ Defnyddiwch gasgen ddŵr yn yr ardd

I gael awgrymiadau ar sut i arbed dŵr yn y cartref, ewch i wefan Dŵr Cymru.
https://www.dwrcymru.com/en/help-advice/water-saving-tips-for-households

## *ii. Ynni adnewyddadwy*

Po fwyaf yr ynni y gallwn ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy megis gwynt, solar neu ddŵr, po leiaf y tanwydd ffosil sydd angen i ni ei ddefnyddio.

**Yr hyn y mae'r Cyngor wedi ei wneud eisoes**

Rydym eisoes wedi gosod asedau sy'n cynhyrchu cyfanswm o 355kWh ar draws y fwrdeistref, gan gynnwys systemau ffotofoltäig ar doeau a system trydan dŵr fechan ym Mlaenafon.

Mae gwaith hefyd wedi cychwyn ar ddatblygu fferm solar gyntaf y Cyngor, gyda system 3MW wedi ei chynllunio i'w hadeiladu ar hen domen wastraff.

Mae asesiad o ynni adnewyddadwy a charbon isel o'r fwrdeistref wedi ei wneud i ddarparu tystiolaeth ar gyfer y targedau ynni adnewyddadwy y byddwn yn eu pennu yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd 2018-2033 [10]. Ynghyd ag amcangyfrif yr adnoddau ynni adnewyddadwy posibl ar draws y gwahanol dechnolegau, mae'n adnabod y galw posibl yn y dyfodol a all fwydo gwybodaeth i gyfleoedd datblygu.

| Ffocws | Beth fydd y Cyngor yn ei wneud | Pwy sy'n gyfrifol | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| Sut rydym yn gweithio | Cynyddu faint o ynni adnewyddadwy rydym yn ei gynhyrchu o'n hasedau. | Tîm Ynni / Gwasanaethau Eiddo | Parhaus |
| Y Gymuned | Cynyddu cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y fwrdeistref drwy wella ansawdd adeiladau a datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy lleol. Byddwn yn gwneud hyn drwy:<br>• Fabwysiadu targedau ynni adnewyddadwy lleol uchelgeisiol ond y gellir eu cyflawni yn ein Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN).<br>• Archwilio potensial adnabod ardaloedd daearyddol penodol (Ardaloedd Chwilio Lleol) yn y CDLlN lle mae cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn debygol o fod yn dderbyniol (mewn cyd-destun cynllunio trefol).<br>• Annog ymgorffori Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol ar safleoedd datblygu strategol a adnabyddir yn y CDLlN.<br>• Edrych ar gynyddu manylebau amgylcheddol ar gyfer adeiladau newydd ym mholisi'r CDLlN os nad ydynt yn cael eu sicrhau gan y Rheoliadau Adeiladu.<br>• Annog cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar ddatblygiadau newydd drwy bolisïau'r CDLlN.<br>• Ymgorffori datgarboneiddio fel thema ganolog y CDLlN.<br>• Defnyddio polisïau CDLlN i annog Ynni Adnewyddadwy Integredig mewn adeiladau newydd a ffynonellau gwres carbon isel. | Cynllunio | Parhaus |

**Sut all ein cymunedau helpu**

- ✓ Ystyried prynu eich ynni o ffynonellau adnewyddadwy.

I gael gwybodaeth am ynni adnewyddadwy, ewch i wefan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. https://energysavingtrust.org.uk/renewable-energy

## *iii. Symudedd a Thrafnidiaeth*

Mae Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd yn pwysleisio bod potensial arwyddocaol i gael gostyngiadau mewn allyriadau drwy barhau i wella effeithlonrwydd ynni ar gyfer cerbydau confensiynol, gan newid i gerbydau tanwydd amgen a newid ymddygiad.

**Yr hyn y mae'r Cyngor wedi ei wneud eisoes**

Rydym wedi cyflwyno 5 cerbyd trydan i fflyd y Cyngor.

Mae arolwg o'r fflyd wedi ei wneud i adnabod cyfleoedd i ddatgarboneiddio ein fflyd.

Mae llawer o waith wedi ei wneud eisoes i greu, gwella a hyrwyddo cysylltiadau cerdded a beicio. Mae gan Dorfaen rhyw 22 milltir o lwybrau, a rhwydwaith eang o lwybrau cerdded yn cynnwys llwybr cyhoeddus a llwybrau priffordd.

Ym mis Tachwedd, ymunodd y Cyngor gydag ymrwymiadau Siarter Teithio Iach sector cyhoeddus Gwent.

Gan weithio gydag awdurdodau lleol eraill yng Ngwent, rydym wedi gosod Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan mewn saith o'n meysydd parcio cyhoeddus.

| Ffocws | Beth fydd y Cyngor yn ei wneud | Pwy sy'n gyfrifol | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| Sut rydym yn gweithio | Cyflawni ymrwymiadau Siarter Teithio Iach sector cyhoeddus Gwent 2020-23, gan gynnwys:<br>• Arolygu ein polisïau treuliau teithio, i annog pobl i deithio'n gynaliadwy.<br>• Arolygu'r cynllun beicio i'r gwaith (gan gynnwys e-feiciau).<br>• Asesu a darparu fel y bo'n briodol cyfleusterau storio beics a chawodydd ar bob prif safle.<br>• Gwella mynediad ar feics yn y gwaith lle'n briodol e.e. cronfa feics a beics ar log.<br>• Cynyddu argaeledd cyfarfodydd tele- a fideo-gynadleddau lle'n briodol. | Adnoddau Dynol / Rheoli Asedau / Tîm Ynni / Uned Cludiant Integredig | Parhaus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Gwella opsiynau gweithio'n hyblyg a datblygu diwylliant o weithio chwim ar draws safleoedd sector cyhoeddus.<br>• Arolygu'r angen presennol ac i'r dyfodol am seilwaith gwefru cerbydau trydan ar ein safleoedd.<br>• Arolygu ein trefniadau fflyd a chaffael (lle bo'n berthnasol) i gyflwyno cerbydau allyriad isel iawn. | | |
| Y Gymuned | Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd teithio llesol, gan gynnwys darparu llwybrau / cysylltiadau newydd fel rhan o ddatblygiadau newydd. | Cynllunio | Parhaus |
| Y Gymuned | Sicrhau cydymffurfio gyda pholisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â 10% o fannau parcio masnachol wedi eu gosod gyda seilwaith gwefru cerbydau trydan drwy Reoli Datblygiad. | Cynllunio | Parhaus |
| Y Gymuned | Datblygu canllawiau gwefru cerbydau i drigolion. | Priffyrdd | Medi 2023 |

**Sut all ein cymunedau helpu**

Mae llawer o allyriadau carbon yn gysylltiedig â sut rydym yn symud o gwmpas a pha mor bell a sut rydym yn cludo nwyddau a gwasanaethau.

- ✓ Osgoi teithiau diangen
- ✓ Cerdded a beicio mwy

I gael rhagor o wybodaeth ar sut allwch leihau eich ôl troed teithio, ewch i: https://www.sustrans.org.uk/national-cycle-network/the-national-cycle-network-in-wales

## *iv. Caffaeliad*

Yng Nghymru, mae'r sector cyhoeddus yn caffael gwerth £6 biliwn o nwyddau a gwasanaethau bob blwyddyn, ac mae ganddo'r potensial i "ddefnyddio rheolau caffaeliad yn bositif i helpu i yrru gostyngiad mewn allyriadau mewn nifer o feysydd gan gynnwys cerbydau allyriad isel iawn a chynhyrchion carbon isel" [3].

**Yr hyn y mae'r Cyngor wedi ei wneud eisoes**

Mae 100% o'r trydan y mae'r Cyngor yn ei brynu yn dod o ffynonellau adnewyddadwy.

Fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, rydym wedi gweithio gyda'r prif gontractwr i alluogi cyfleoedd i gadwyni cyflenwi lleol. Rydym hefyd yn gweithio ar ein hysgol Passivhaus gyntaf yng Nghwmbrân.

Rydym wedi datblygu achos busnes, sy'n ystyried arbedion carbon posibl, i argymell ailgylchu cerbydau yn y dyfodol, wedi ei integreiddio gyda moderneiddio digidol y gwasanaeth.

| **Ffocws** | **Beth fydd y Cyngor yn ei wneud** | **Pwy sy'n gyfrifol** | **Erbyn pryd** |
|---|---|---|---|
| Sut rydym yn gweithio | Datblygu agwedd gorfforaethol newydd tuag at gaffaeliad sy'n cymryd effaith carbon i ystyriaeth wrth brynu nwyddau a gwasanaethau. | T22 Bwrdd Caffael | Ebrill 2023 |
| Y Gymuned | Ystyried prynu nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau lleol. | T22 Bwrdd Caffael | Ebrill 2023 |
| Y Gymuned | Cefnogi a hyrwyddo'r economi lleol. | T22 Bwrdd Caffael a'r Tîm Economi a Sgiliau | Parhaus |

**Sut all ein cymunedau helpu**

Meddwl am yr hyn rydych yn ei brynu, sut cafodd ei wneud ac o ble y daeth.

- Cefnogi cynhyrchwyr a busnes lleol lle bo modd.
- Bwyta mwy o ffrwythau a llysiau tymhorol.

## *v. Gwastraff*

Y peth gorau y gallwn ei wneud yw rhwystro gwastraff rhag cael ei gynhyrchu. Lle nad yw hyn yn bosibl, rhaid i ni ail-ddefnyddio, ailgylchu a chompostio mwy. Drwy leihau faint o wastraff a anfonir i'w waredu a thrwy gynyddu ailgylchu, gallwn leihau lefelau carbon a nwyon tŷ gwydr eraill.

**Yr hyn y mae'r Cyngor wedi ei wneud eisoes**

Rydym wedi agor Siop Ailddefnyddio drws nesaf i'n Canolfan Ailgylchu Gwastraff Tŷ yn y Dafarn Newydd er mwyn rhoi cartref newydd i eitemau a fyddai fel arall yn cael eu taflu i ffwrdd.

Rydym wedi cychwyn treial ailgylchu bagiau / ffilm plastig.

Rydym yn gweithio gydag ysgolion i rannu negeseuon ymwybyddiaeth o wastraff.

Mae ein Cynghorwyr wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio cwpanau plastig un defnydd yng nghyfarfodydd y Cyngor.

| Ffocws | Beth fydd y Cyngor yn ei wneud | Pwy sy'n gyfrifol | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| Y Gymuned | Cynyddu faint o wastraff tŷ sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio. | Gwasanaethau Gwastraff | Parhaus |
| Sut rydym yn gweithio | Arolygu ein gweithgareddau gwastraff tŷ i adnabod cyfleoedd i leihau allyriadau carbon. | Gwasanaethau Gwastraff | Mawrth 2023 |
| Y Gymuned | Gweithio gyda thrigolion, contractwyr, grwpiau cymunedol a'r trydydd sector i wneud y mwyaf o ailgylchu a'r cyfleoedd i ailddefnyddio. | Gwasanaethau Gwastraff | Parhaus |
| Y Gymuned | Parhau i annog trigolion i leihau faint o wastraff bwyd maent yn ei gynhyrchu a lle mae yn cael ei gynhyrchu, naill ai compostio gartref neu ddefnyddio gwasanaeth ailgylchu cadi cegin y Cyngor. | Gwasanaethau Gwastraff | Parhaus |
| Sut rydym yn gweithio | Adnabod a chofnodi gwaelodlin ar gyfer y gwastraff a grëir yn fewnol yn swyddfeydd Torfaen. | Gwasanaethau Eiddo | Parhaus |
| Sut rydym yn gweithio | Pennu targedau i leihau a monitro gwastraff o holl swyddfeydd CBST a mannau gwaith eraill. | Gwasanaethau Gwastraff | Parhaus |

**Sut all ein cymunedau helpu**

Prynu llai a thaflu llai. Ceisio newid i eitemau y gellir eu hailddefnyddio ac ailgylchu mwy a lleihau gwastraff.

- ✓ Dewis opsiynau y gellir eu hailddefnyddio e.e. cwpanau yfed.
- ✓ Dewis cynhyrchion sy'n defnyddio llai o ddeunydd pecynnu.
- ✓ Compostio gwastraff bwyd.
- ✓ Osgoi plastig un defnydd.

## *vi. Bioamrywiaeth a gwytnwch yr ecosystem*

Mae coed a llystyfiant arall yn helpu i reoli faint o ddeuocsid carbon sy'n yr atmosffer drwy ddodi dan glo llawer o'r carbon wrth iddynt dyfu. Mae pridd hefyd yn bwysig iawn i storio carbon. Gall ein hadnoddau naturiol hefyd helpu i gefnogi ein capasiti i addasu i newid yn yr hinsawdd e.e. drwy reoli dŵr yn y dirwedd a lleihau effaith cynnydd mewn tymheredd. I

weithio'n effeithiol, mae angen i'r adnoddau naturiol hyn a'r ecosystemau maent yn eu cefnogi fod yn iach ac wedi eu cysylltu.

**Yr hyn y mae'r Cyngor wedi ei wneud eisoes**

Rydym wedi paratoi Cynllun Gwytnwch Bioamrywiaeth ac Ecosystem (2019) yn nodi sut rydym yn cyfrannu i'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cenedlaethol.

Rydym wedi mapio ein Hasedau Seilwaith Gwyrdd Trefol ac wedi adnabod y coridorau sydd angen eu hamddiffyn a'u gwella i sicrhau cysylltedd ecolegol yn yr ardal drefol.

Rydym wedi datblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Chynllun Gweithredu yn nodi'r cyfleoedd i wella rheolaeth ein mannau gwyrdd.

Rydym yn rheoli 7 Gwarchodfa Natur Leol er budd natur a phobl. Maent wedi eu lleoli'n strategol ledled Torfaen ac yn hybiau strategol yn ein seilwaith gwyrdd.

Rydym yn treialu dull newydd o dorri gwaith ar ymylon ffordd ac mewn dolydd newydd i wella bioamrywiaeth. Hyd yma, mae mwy na 60 o safleoedd yn rhan o'r cynllun newydd ac rydym yn gobeithio ehangu hyn i fwy o safleoedd yn 2021.

Fel rhan o brosiect cydweithredol Ucheldiroedd Cydnerth De-ddwyrain Cymru, rydym wedi gwneud gwaith adfer ar rai cynefinoedd mawn sy'n hollbwysig ar gyfer storio carbon a dŵr.

Drwy gyfrwng prosiectau Gwent Gydnerth a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth i gyflenwi prosiectau gwella bioamrywiaeth a llesiant yn y gymuned.

Rydym wedi dechrau datblygu proses o gymryd penderfyniadau i helpu i ystyried seilwaith gwyrdd, bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau yng Nghynllun Datblygu Lleol Newydd Torfaen.

| Ffocws | Beth fydd y Cyngor yn ei wneud | Pwy sy'n gyfrifol | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| Y Gymuned | Amddiffyn seilwaith gwyrdd presennol cyn belled ag y bo modd a gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer seilwaith gwyrdd ar ddatblygiadau newydd. | Cynllunio | Parhaus |
| Y Gymuned | Datblygu Canllawiau Cynllunio Atebol Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth (CCA) i ddatblygwyr. | Tîm Polisi yr Amgylchedd Naturiol | Ebrill 2022 |
| Y Gymuned | Cyflenwi ymrwymiadau'r Cynllun Gwytnwch Bioamrywiaeth ac Ecosystem | Gweithgor Swyddogion Argyfwng Hinsawdd a Natur | Parhaus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sut rydym yn gweithio | Mapio a monitro newidiadau yn y canopi coed yn Nhorfaen. | Tîm Polisi yr Amgylchedd Naturiol | Parhaus |
| Y Gymuned | Datblygu Canllawiau Cynllunio Ategol Coed a Choedlannau (CCA). Bydd hwn yn datblygu fframwaith i ddatblygwyr ac eraill sy'n rhan o'r broses gynllunio wrth nodi'r hyn rydym yn ei ddisgwyl mewn perthynas â choed, gwrychoedd a choedlannau. | Tîm Polisi yr Amgylchedd Naturiol | Ebrill 2022 |
| Y Gymuned | Datblygu mesurau lliniaru ac iawndal priodol ar gyfer colli coed a choedlannau. Mae hyn yn cynnwys coed yn y dirwedd drefol. | Tîm Polisi yr Amgylchedd Naturiol, a Chynllunio | Ebrill 2023 |
| Sut rydym yn gweithio | Datblygu detholiad o goed sy'n gallu ymdopi â'r hinsawdd (e.e. gallu gwrthsefyll heintiau) pan yn plannu coed trefol newydd. | Tîm Polisi yr Amgylchedd Naturiol | Ebrill 2022 |
| Sut rydym yn gweithio | Adnewyddu'r holl goed a dorrir gan yr awdurdod lleol. Bydd nifer y coed i'w hailblannu yn adlewyrchu maint y canopi coed a gollir. | Tîm Amgylchedd Naturiol a Strydlun | Ebrill 2023 |
| Y Gymuned | Datblygu cynlluniau plannu coed newydd ar dir ym meddiant y Cyngor, gan ddefnyddio dull seilwaith gwyrdd. | Tîm Amgylchedd Naturiol a Strydlun / Rheoli Asedau | Ebrill 2023 |
| Y Gymuned | Sefydlu 2 berllan gymunedol newydd. | Tîm Amgylchedd Naturiol a Strydlun | Ebrill 2024 |
| Y Gymuned | Lle bo modd, cynnig cyfle i wella sgiliau lleol drwy gynllunio'r gweithlu, hyfforddiant, prentisiaethau a gwirfoddoli yn gysylltiedig â'r amgylchedd naturiol. | Tîm Amgylchedd Naturiol a Strydlun / Tîm Economi ac Adnewyddu | Parhaus |
| Y Gymuned | Gweithio ar y cyd â'r Bartneriaeth Natur Leol, cyrff gwirfoddol, cynghorau cymuned a'r cyhoedd, i warchod a gwella ein hadnoddau naturiol mewn ffordd sy'n dal a storio carbon. | Tîm Amgylchedd Naturiol a Strydlun | Parhaus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Gymuned | Gweithio gydag ysgolion i annog casglu hadau a choed ifanc ar diroedd yr ysgol. | Cydgysylltydd Partneriaeth Natur Leol | Ebrill 2023 |
| Y Gymuned | Ystyried cyfleoedd i gyflwyno cynllunio rheoli llifogydd naturiol yn y fwrdeistref a pharhau i ymgymryd â gweithgareddau sy'n cadw dŵr yn y dirwedd ucheldirol. | Tîm Polisi yr Amgylchedd Naturiol / Swyddog Peryglon Llifogydd | Parhaus |
| Y Gymuned | Defnyddio Adroddiad Cyflwr Natur Gwent i ddatblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn pennu blaenoriaethau 'amddiffyn a gwella' ar gyfer bioamrywiaeth ar lefel y fwrdeistref sirol. | Cydgysylltydd Partneriaeth Natur Leol | Ebrill 2022 |

**Sut all ein cymunedau helpu**

- ✓ Gadael i ran o'ch gardd fynd ychydig yn wyllt – gadael i'r gwair dyfu yn yr haf a chyflwyno blodau gwyllt.
- ✓ Tyfu gwrych neu goeden fach (coeden ffrwythau efallai).
- ✓ Cymryd rhan yn y prosiect perllan gymunedol.
- ✓ Creu tomen gompost fel nad yw gwastraff gwyrdd yn cael ei gludo ac felly lleihau defnydd o danwydd.
- ✓ Gall grwpiau cymunedol fabwysiadu a rheoli man gwyrdd lleol i helpu i wella gwytnwch ecosystemau.
- ✓ Cymryd rhan mewn prosiectau gwyddoniaeth dinasyddion cenedlaethol/lleol sy'n mesur newidiadau yn yr amgylchedd e.e. cynllun Adar Gardd yr RSPB, Cofnodi Coed Hynafol Coed Cadw.
- ✓ Cofnodi'r bywyd gwyllt yn eich ardal a rhannu'r wybodaeth drwy system gofnodi arlein Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWBReC).

I gael gwybod mwy ma natur yn Nhorfaen a sut i ddod â mwy ohono i'ch bywyd chi, edrychwch ar y wefan ar gyfer y Bartneriaeth Natur Leol neu edrychwch ar eu tudalennau ar Facebook, Twitter ac Instagram.

## *vii. Gwytnwch*

I sicrhau lles hirdymor ein cymunedau, mae angen i ni ddechrau paratoi'n lleol ar gyfer heriau newid yn yr hinsawdd. Mae Adroddiad Tystiolaeth Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd 17 y DU – Crynodeb ar gyfer Cymru yn adnabod risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig gyda newid yn yr hinsawdd ar draws pum maes allweddol – yr amgylchedd naturiol ac asedau naturiol; seilwaith; pobl a'r amgylchedd adeiledig; busnes a diwydiant a'r dimensiwn rhyngwladol.

**Yr hyn y mae'r Cyngor wedi ei wneud eisoes**

Rydym wedi gweithio gyda Gwent yn Barod am yr Hinsawdd ar Addasu i Newid yn yr Hinsawdd, prosiect O Brofiad i Weithredu Strategol. Mae hwn wedi datblygu naw astudiaeth achos yng Ngwent, gan gynnwys un ar gyfer Blaenafon, sy'n darparu argymhellion seiliedig ar le ac argymhellion rhanbarthol er mwyn gwella gwytnwch hinsawdd yn lleol.

Eisoes, rydym wedi ymgymryd ag ymarfer mapio cadwyni cyflenwi yn edrych ar weithgareddau bwyd ledled y fwrdeistref.

| **Ffocws** | **Beth fydd y Cyngor yn ei wneud** | **Pwy sy'n gyfrifol** | **Erbyn pryd** |
|---|---|---|---|
| Sut rydym yn gweithio | Gweithio gyda phartneriaid y BGC i ddatblygu ddealltwriaeth gyfunol o risgiau hinsawdd a datblygu camau gweithredu sy'n adeiladu dulliau o addasu. | Gweithgor Swyddogion Argyfwng Hinsawdd a Natur | Parhaus |
| Y Gymuned | Parhau i weithio gyda phartneriaid gwytnwch lleol i sicrhau bod yn barod mewn argyfwng er mwyn ymateb i ddigwyddiadau a allai ddod yn amlach neu gael mwy o effaith oherwydd newid yn yr hinsawdd. | Fforwm Digwyddiadau Dinesig Posibl CBST / Fforwm Gwytnwch Leol Gwent | Parhaus |
| Y Gymuned | Dwyn at ei gilydd randdeiliaid lleol i gefnogi Torfaen i ddod yn 'Lle Bwyd Cynaliadwy' gyda bwyd iach a chynaliadwy ar gael i bawb. | Tîm Datblygu Gwledig | Mawrth 2023 |

**Sut all ein cymunedau helpu**

- ✓ Gwerthfawrogi coed am y gwasanaethau maent yn eu darparu mewn ardaloedd trefol – cysgod, hel dŵr a storio carbon.
- ✓ Ymgorffori draeniau trefol cynaliadwy / gerddi glaw mewn cynlluniau plannu sy'n amsugno a rheoli dŵr ffo.
- ✓ Gwirio eich risg a pharatoi ar gyfer llifogydd drwy fynd i wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Os yw eich cartref neu eich busnes mewn ardal sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd, cofrestrwch i dderbyn rhybuddion ar y ffôn, ebost neu neges testun.
- ✓ Osgoi disodli mannau gwyrdd gydag arwynebau caled nad ydynt yn amsugno dŵr.
- ✓ Tyfu eich ffrwythau a'ch llysiau eich hun.
- ✓ Defnyddio casgenni dŵr yn yr ardd.

## *vii. Trawsbynciol*

**Yr hyn y mae'r Cyngor wedi ei wneud eisoes**

Cyflwyno modiwlau e-ddysgu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
Mae rhai o'n haelodau staff wedi ymgymryd â Hyfforddiant Llythrennedd Carbon.

| **Ffocws** | **Beth fydd y Cyngor yn ei wneud** | **Pwy sy'n gyfrifol** | **Erbyn pryd** |
|---|---|---|---|
| Sut rydym yn gweithio | Hyfforddi ein staff a'r Aelodau Etholedig i ystyried a gweithredu ar yr argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnânt. | Rheolwr Amgylcheddol a Chynaliadwyedd | Ebrill 2022 |
| Sut rydym yn gweithio | Ystyried yr argyfwng hinsawdd a natur yn ein prosesau cymryd penderfyniad. Byddwn yn gwneud hyn drwy gynnwys newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth yn ein Hasesiad Effaith Integredig, | Uwch Swyddog Gwella Corfforaethol a Chraffu | Ebrill 2022 |
| Sut rydym yn gweithio | Gweithio gyda Phanel Strategaeth Ddatgarboneiddio Llywodraeth Leol i rannu beth a ddysgir a datblygu dulliau cydweithrediad o gyflawni sector carbon sero net yng Nghymru. | Prif Swyddog Cymdogaethau, Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd | Parhaus |
| Y Gymuned | Cefnogi cyflenwi Prosbectws Bargen Prifddinas-ranbarth Caerdydd a'i flaenoriaethau datgarboneiddio rhanbarthol. | Prif Swyddog Cymdogaethau, Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd | Parhaus |
| Y Gymuned | Optimeiddo cyfleoedd i gefnogi bwriad adferiad gwyrdd Covid - Llywodraeth Cymru drwy gyfrwng dull Cynllunio Corfforaethol y Cyngor. | Prif Swyddog Cymdogaethau, Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd | Parhaus |
| Y Gymuned | Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Ynni Ardal Leol ar gyfer Torfaen. | Tîm Ynni | Mawrth 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sut rydym yn gweithio | Sefydlu is-grŵp Cabinet i gefnogi cyflenwi'r cynllun gweithredu argyfwng hinsawdd a natur. | Cabinet | Mawrth 2022 |

## 3.0 MESUR EIN CYNNYDD

Bydd cyflenwi'r cynllun gweithredu yn cael ei gydgysylltu drwy Weithgor Swyddogion Argyfwng Hinsawdd a Natur. Mae Atodiad 1 yn dangos crynodeb o'r cynllun gweithredu cyfan.

## 4.0 NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL A DULLIAU O WEITHIO

Mae'r tablau isod yn dangos sut mae ein dull o ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol ac yn defnyddio'r pum dull o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

| Nod Llesiant | Cyfrannu at y nodau |
|---|---|
| **Cymru ffyniannus** | Bydd cymryd camau i wella effeithlonrwydd ynni a dŵr ein hadeiladau a lleihau allyriadau o'n fflyd yn helpu i gefnogi'r symudiad i gymdeithas carbon isel sy'n defnyddio adnoddau yn effeithlon ac yn gyfrannol.<br><br>Bydd gweithredu'n gynnar i baratoi ar gyfer effeithiau'r newid yn yr hinsawdd bob amser yn fwy cost-effeithiol na mabwysiadu dull adweithiol.<br><br>Mae Rhanbarth Prifddinas Caerdydd wedi adnabod ynni a'r amgylchedd fel sector blaenoriaeth a fydd yn bwysig i ffyniant rhanbarthol dros y 10-20 mlynedd nesaf[11]. |
| **Cymru gydnerth** | Bydd gwella rheolaeth o'n hadnoddau naturiol yn cefnogi gwytnwch bioamrywiaeth ac ecolegol.<br><br>Gall sut rydym yn rheoli ein hadnoddau naturiol helpu i gefnogi ein capasiti i addasu i newid yn yr hinsawdd e.e. drwy reoli dŵr yn y dirwedd a lleihau effaith cynnydd mewn tymheredd. |
| **Cymru mwy cyfartal** | Mae amrywiol risgiau iechyd yn gysylltiedig gyda newid yn yr hinsawdd sydd â'r potensial o gael yr effaith fwyaf ar y mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas - er enghraifft ymdopi gyda eithafion mewn tymheredd neu lifogydd. |

| | |
|---|---|
| | Mae gan effeithiau newid yn yr hinsawdd y potensial i gynyddu anghydraddoldeb ymhellach yn ein cymunedau a chael mwy o effaith ar grwpiau sy'n agored i niwed.<br><br>Bydd helpu i leihau llygredd yn yr aer, a all gael effaith niweidiol ar iechyd y mwyaf agored i niwed yn y boblogaeth, helpu i greu Cymru mwy cyfartal.<br><br>Bydd sicrhau bod gan bawb yn ein cymunedau fynediad at fannau agored o ansawdd yn cyfrannu tuag at Dorfaen mwy cyfartal. |
| **Cymru o gymunedau mwy cydlynol** | Bydd mesurau i gefnogi'r symudiad i gymdeithas carbon isel yn helpu i gyfrannu tuag at gymunedau hyfyw, diogel a gyda chysylltiadau da.<br><br>Gall defnyddio atebion seiliedig ar natur i helpu cymunedau i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd hefyd feithrin cymunedau cryf, diogel, cydlynol.<br><br>Bydd lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau tirwedd gan gynnwys tipio anghyfreithlon yn gwneud adnoddau naturiol Torfaen yn ddiogelach i bobl eu mwynhau. |
| **Cymru gyda diwylliant bywiog a iaith Gymraeg sy'n ffynnu** | Bydd gweithredu i liniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd yn helpu i gefnogi hunaniaeth ddiwylliannol leol sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd.<br><br>Yn hanesyddol ac yn ddiwylliannol, mae gan Gymru gysylltiadau cryfion gyda chynhyrchu ynni, a bydd ystyried cyfleoedd newydd sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio yn arwain y ffordd i ddyfodol glanach, gwyrddach.<br><br>Mae amgylchedd naturiol Torfaen yn cael ei ddylanwadu'n gryf gan ei orffennol diwydiannol ac mae'r dirwedd nodedig yma yn bwysig i'n diwylliant heddiw, a hefyd yn adnawdd ecolegol arwyddocaol. |
| **Cymru iachach** | Gall symud i ffwrdd o ddibyniaeth ar danwydd ffosil arwain at welliannau mewn ansawdd aer a lleihad mewn cyflyrau iechyd cronig sy'n gysylltiedig â llygredd aer.<br><br>Gall cynnydd yn y defnydd o deithio llesol megis cerdded a beicio helpu i wella iechyd pobl.<br><br>Gall adnoddau naturiol sy'n gweithio'n iach gyfrannu at les meddyliol a chorfforol. |
| **Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang** | Bydd cymryd camau i leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr yn lleol helpu i liniaru effeithiau byd-eang newid yn yr hinsawdd.<br><br>Bydd gwella sut mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli yn lleol yn helpu i ddelio gyda'r argyfwng natur byd-eang. |

| Dulliau o weithio | |
|---|---|
| **Cydweithredu** | Wrth gyflawni'r cynllun hwn, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd ac yn rhannu arbenigrwydd ar draws ein sefydliad ni a thu hwnt, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Bargen Prifddinas-ranbarth Caerdydd a phartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, i gefnogi'r symudiad o gymdeithas carbon isel. |
| **Cyfranogiad** | Byddwn yn darparu cyfleoedd i sefydliadau ac unigolion gyfrannu tuag ar ein hamcanion argyfwng hinsawdd a natur ac rydym eisiau i'n dull cyfunol gynnwys sgwrs barhaus gyda'n cymunedau. |
| **Rhwystro** | Bydd gweithredu i liniaru risgiau newid yn yr hinsawdd yn cyfrannu at lesiant cenedlaethau'r dyfodol.<br><br>Bydd sicrhau bod ein hasedau naturiol yn cael eu rheoli'n dda a'u bod mewn cyflwr da yn golygu bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu elwa o'u manteision lles. |
| **Hirdymor** | Budd gweithredu i leihau allyriadau carbon a pharatoi ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd yn cyfrannu tuag at les cenedlaethau'r dyfodol. |
| **Integredig** | Mae'r tabl uchod yn dangos sut y bydd y cynllun gweithredu yn cyfrannu at y nodau lles cenedlaethol. |

# 5.0 GEIRFA

| | |
|---|---|
| **Bioamrywiaeth** | Mae hyn yn golygu amrywiaeth organebau byw |
| **Carbon niwtral / Allyriadau Sero Net** | Yn golygu cael cydbwysedd rhwng faint o allyriad a gynhyrchir a faint gaiff ei storio neu ei wrthbwyso |
| **$CO_2$** | Deuocsid carbon |
| **$CO_2e$** | Cyfwerth â deuocsid carbon |
| **°C** | Gradd Celsius – graddfa dymheredd |
| **Ecosystem** | Cymuned neu grŵp o organebau byw sy'n byw gyda ac yn rhyngweithio gyda'i gilydd mewn amgylchedd penodol |
| **Kilo-dunelli** | Mil o dunelli metrig |
| **Per capita** | Fesul pen y boblogaeth |
| **tes/CO2** | Tunelli o ddeuocsid carbon |

# 6.0 CYFEIRIADAU

[1] Y Swyddfa Dywydd – What is climate change?

[2] Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) - Global Warming of 1.5 °C

[3] Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon isel, Llywodraeth Cymru. 2019.

[4] Adroddiad Living Planet 2020. World Wildlife Fund for Nature. 2020. https://livingplanet.panda.org/en-us/

[5] Bioamrywiaeth yng Nghymru yn dirywio. Ffeithlun o'r adroddiad Cyflwr Natur 2019. Partneriaeth Cyflwr Natur. 2019.

[6] Canllaw Adrodd Sector Cyhoeddus Carbon Sero net, Llywodraeth Cymru Mai 2021

[7] Canllaw Adrodd Sector Cyhoeddus Carbon Sero Net, Llywodraeth Cymru Mai 2021

[8] Ystadegau cenedlaethol allyriadau deuocsid carbon awdurdodau lleol a rhanbarthol y DU: 2005-2019. DECC (Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd). 2019.

[9] Ystadegau cenedlaethol allyriadau deuocsid carbon awdurdodau lleol a rhanbarthol y DU: 2005-2019. DECC (Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd). 2019.

[10] Torfaen Asesiad Ynni Adnewyddadwy a charbon isel Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Crynodeb anhechnegol. Ymddiriedolaeth Garbon. 2020.

[11] Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-ranbarth Caerdydd